

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG  
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A  
LLWYTHO A MANNAU PARCIO)**

**GORCHYMYN (GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 4) 2022**

1. Ar 28 Mehefin 2022 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffordd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, Orchymyn i osod a diddymu'r Mannau Parcio a nodir yn Atodlen isod ar waith.
2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 4 Gorffennaf 2022 neu ar y dyddiadau y caiff yr arwyddion a'r marciau ffordd eu tynnu neu eu gosod, p'un bynnag sydd hwyraf, ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 4) 2022"
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r cynlluniau sy'n dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn [www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk)
4. Os dymunwch herio dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos i 4 Gorffennaf 2022, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Caiff y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol ei ddiwygio fel a ganlyn:

**Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013**

**ATODLEN 1**

**Ychwanegu at atodlenni map AX49**

**Cynnig Gwahardd Llwytho a Dad-lwytho ar Unrhyw Adeg**

**Romilly Road**

Ar ochr y gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Park Crescent tua'r de-ddwyrain am 20 metr.

Ar ochr y de-orllewin o'r gyffordd â Park Crescent tua'r de-ddwyrain am 20 metr.

**Park Crescent**

Ar ochr y de-ddwyrain o'r gyffordd â Heol Romilly, tua'r de-orllewin am 9 metr.

**ATODLEN 2**

**Cynnig Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho o ddydd Llun i ddydd Gwener o 8am tan 9.30am ac o 2.30pm tan 4pm.**

**Heol Romilly**

Ar ochr y de-orllewin o bwynt 20 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â Park Crescent, tua'r de-ddwyrain am bellter o 37 metr.

**ATODLEN 3**

**Diddymu Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg**

**Heol Romilly**

Ar ochr y gogledd-orllewin o bwynt 20 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â Park Crescent, tua'r de-ddwyrain am bellter o 80 metr.

Ar ochr y de-orllewin o bwynt 20 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â Park Crescent, tua'r de-ddwyrain am bellter o 37 metr.

Dyddiad: 30 Mehefin 2022.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg,

Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA